

Cynllun iaith Gymraeg

Paratowyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

OFT1109



© Hawlfraint y Goron 2010

Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn (heblaw am logo'r Swyddfa Masnachu Teg) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a nodi teitl y cyhoeddiad.

CYNNWYS

<i>Pennod</i>	<i>Tudalen</i>
1 Cyflwyniad	4
2 Rôl y Swyddfa Masnachu Teg	5
3 Cynllunio a darparu gwasanaethau	7
4 Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg	8
5 Wyneb cyhoeddus	11
6 Gweithredu'r cynllun	15
7 Adolygu a diwygio'r cynllun	18
 <i>Atodiad</i>	
A Prif ddyddiadau targed ar gyfer cyflawni'r cynllun	20

1 CYFLWYNIAD

- 1.1 O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 (y Ddeddf), mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru baratoi cynllun yn nodi sut y bydd yn darparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg.
- 1.2 Dyma Gynllun Iaith Gymraeg y Swyddfa Masnachu Teg (OFT). Mae'n disgrifio sut y byddwn yn gweithredu, cyhyd ag y bo'n briodol yn yr amgylchiadau a chyhyd ag y bo'n rhesymol ymarferol yn unol â'r egwyddor a sefydlwyd gan y Ddeddf y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.
- 1.3 Mae holl ofynion y cynllun hwn hefyd yn rheoli darpariaeth y gwasanaethau a gynigir gan Cyswllt Defnyddwyr, neu wasanaethau a ddarperir o dan frand Cyswllt Defnyddwyr, oni nodir yn wahanol.
- 1.4 Mae'r cynllun hwn yn cwmpasu'r gwasanaethau a ddarparwn i'r cyhoedd yng Nghymru.
- 1.5 Yn y cynllun hwn, mae'r term **cyhoeddus** yn golygu unigolion, unigolion cyfreithiol, sefydliadau gwirfoddol ac elusennau. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn gyffredinol, neu adran o'r cyhoedd, ac aelodau unigol o'r cyhoedd. Nid yw'n cynnwys unigolion sy'n cynrychioli'r Goron, y Llywodraeth na'r Wladwriaeth. O ganlyniad, nid yw unigolion sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus swyddogol, er eu bod yn unigolion cyfreithiol, yn cael eu cynnwys o fewn ystyr y gair 'cyhoeddus' pan fônt yn cyflawni'r swyddogaethau swyddogol hynny.
- 1.6 Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am gwmpas a diben cynlluniau iaith Gymraeg ar wefan Bwrdd yr Iaith Gymraeg: www.byig-wlb.org.uk
- 1.7 Paratowyd y cynllun hwn o dan Adran 21 o'r Ddeddf ac yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Adran 9 o'r Ddeddf. Daeth i rym ar 17/03/10.

2 RÔL Y SWYDDFA MASNACHU TEG (OFT)

- 2.1 Yr OFT yw awdurdod defnyddwyr a chystadleuaeth y DU. Rydym yn adran anweinidogol o'r llywodraeth a sefydlwyd gan statud ym 1973. Mae ein pencadlys yng nghanol Llundain gydag is-swyddfa yng Nghaeredin.
- 2.2 Ein cenhadaeth yw gwneud i farchnadoedd weithio'n dda i ddefnyddwyr. Rydym yn cyflawni'r nod hwn drwy:
- annog busnesau i gydymffurfio â chyfraith defnyddwyr a chystadleuaeth ac i wella eu harferion masnachu drwy hunanreoleiddio.
 - gweithredu'n bendant i rwystro troseddwy'r di-ildio neu amlwg.
 - astudio marchnadoedd ac argymhell camau gweithredu lle y bo angen
 - grymuso defnyddwyr â'r wybodaeth a'r sgiliau i wneud penderfyniadau hyddysg a chael y gwerth gorau o farchnadoedd, a'u helpu i ddatrys problemau gyda chyflenwyr drwy Cyswllt Defnyddwyr.
- 2.3 Gwasanaeth ffôn ac ar-lein a ariennir gan y llywodraeth yw Cyswllt Defnyddwyr sy'n cynnig gwybodaeth a chynngor ar faterion defnyddwyr. Caiff ei ariannu gan y Swyddfa Masnachu Teg a'i gyflenwi mewn partneriaeth â Gwasanaethau Safonau Masnach awdurdodau lleol.
- 2.4 Mae gan Cyswllt Defnyddwyr 12 o ganolfannau galwadau. Deg yn Lloegr, un yn yr Alban ac un yng Nghymru. Mae'r ganolfan alwadau yng Nghymru yn cyflawni ei rhwymedigaethau gwasanaeth ar y cyd â Chynllun Iaith Gymraeg Cyngor Dinas Caerdydd, ac felly ni chaiff ei rheoli gan y cynllun hwn. Mae rhagor o wybodaeth am Cyswllt Defnyddwyr ar gael yn www.consumerdirect.gov.uk
- 2.5 Mae rhagor o wybodaeth am y Swyddfa Masnachu Teg ar gael yn www.oft.gov.uk

2.6 Mae manylion cyswllt hefyd ar gael ar ein gwefan ac ar ddiwedd y ddogfen hon.

3 CYNLLUNIO A DARPARU GWASANAETHAU

Polisiâu, mentrau a gwasanaethau

- 3.1 Gweithredir ein polisiâu, ein mentrau a'n gwasanaethau yn unol â'r cynllun hwn.

Darparu gwasanaethau

- 3.2 Byddwn yn sicrhau bod cymaint â phosibl o'n gwasanaethau sy'n ymwneud â'r cyhoedd yng Nghymru ar gael yn Gymraeg - a byddwn yn rhoi gwybod i'r cyhoedd pan fyddant ar gael.

Ein swyddogaethau rheoleiddio - a gwasanaethau a ddarperir ar ein rhan gan drydydd partïon

- 3.3 Bydd unrhyw gytundebau neu drefniadau sy'n ymwneud â gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru a wnawn â thrydydd partïon yn unol â'r cynllun hwn. Bydd hyn yn sicrhau bod trydydd partïon yn darparu'r gwasanaethau hynny yn unol â'r cynllun hwn.

Safonau ansawdd

- 3.4 Bydd gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg ac yn Saesneg o ansawdd cyfartal a byddant yn cael eu darparu o fewn yr un terfyn amser.

4 DELIO Â'R CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG

Gohebiaeth

4.1 Dyma fydd ein trefn arferol:

- Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb). Bydd ein hamser targed ar gyfer ateb yr un peth â'r amser targed ar gyfer ateb llythyrau a ysgrifennir yn Saesneg.
- Pan fyddwn yn dechrau gohebiaeth gydag unigolyn, grŵp neu sefydliad, byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg pan fyddwn yn gwybod y byddai'n well ganddynt ohebu yn Gymraeg.
- Byddwn yn defnyddio'r system sgorio (i'w chytuno â Bwrdd yr Iaith Gymraeg) i nodi'n wrthrychol pa ohebiaeth safonol a chylchlythyrau a gaiff eu cyhoeddi yn Gymraeg, neu'n ddwyieithog.
- Os cyhoeddir fersiynau Cymraeg a Saesneg o unrhyw ohebiaeth ar wahân, byddwn yn sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd fel mater o drefn.
- Bydd dogfennau a amgaeir gyda llythyrau dwyieithog yn ddwyieithog, pan fyddant ar gael.
- Bydd dogfennau a amgaeir gyda llythyrau Cymraeg yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, pan fyddant ar gael.
- Bydd yr uchod yn gymwys i ohebiaeth e-bost yn ogystal â gohebiaeth ar bapur.
- Bydd pob gohebiaeth Gymraeg a anfonir gennym ar ffurf copi caled wedi'i llofnodi.

Cyfathrebu dros y ffôn

- 4.2 Oherwydd ein lleoliad ni fyddai'n ymarferol i ni gynnal sgysiau ffôn yn Gymraeg. Fodd bynnag, pan fyddwn yn sefydlu llinellau cymorth ffôn, neu gyfleusterau tebyg, i roi gwybodaeth, gwasanaethau neu gymorth i'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn darparu gwasanaeth Cymraeg. Bydd y gwasanaeth hwn yn cael ei hysbysebu ochr yn ochr â'r gwasanaeth Saesneg. Bydd y ddau wasanaeth yn rhannu'r un rhif ffôn.

Cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru

- 4.3 Byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu gyfieithiad dilynol o'r Gymraeg i'r Saesneg yn ein cyfarfodydd cyhoeddus a gynhelir yng Nghymru oni bai ein bod wedi sefydlu bod pob un sy'n cymryd rhan yn debygol o ddefnyddio'r un iaith.
- 4.4 Bydd gwahoddiadau a hysbysebion ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru yn ddwyieithog a byddant yn gwahodd y rheini a fydd yn cymryd rhan i'n hysbysu ymlaen llaw o'u dewis iaith.
- 4.5 Byddwn yn rhoi gwybod i'r rheini sy'n mynychu cyfarfodydd cyhoeddus pan fydd cyfleusterau cyfieithu ar gael.
- 4.6 Bydd papurau a gwybodaeth arall ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru lle y caiff cyfleusterau cyfieithu eu darparu ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Byddwn yn sicrhau y caiff adroddiadau a phapurau a lunnir yn dilyn cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru lle y darparwyd cyfleusterau cyfieithu eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Cyfarfodydd eraill yng Nghymru

- 4.7 Oherwydd ein lleoliad ni fyddai'n ymarferol i ni gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn Gymraeg.

Ymwneud arall â'r cyhoedd yng Nghymru

- 4.8 Pan fyddwn yn cynnal **arolygon cyhoeddus**, byddwn yn gofyn i'r rhai sy'n ymateb a fyddai'n well ganddynt ateb yr arolwg yn Gymraeg neu yn Saesneg.
- 4.9 Pan fyddwn yn trefnu **seminarau, cyrsiau hyfforddi** neu ddigwyddiadau tebyg ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn asesu'r angen i'w darparu yn Gymraeg. Wrth wneud yr asesiad hwn, byddwn yn ystyried y wybodaeth sydd gennym am ddewis iaith y rheini y caiff y digwyddiad ei anelu atynt ac a oes hyfforddwyr sy'n siarad Cymraeg ar gael.
- 4.10 Byddwn yn sicrhau y caiff cyhoeddiadau a wneir ar ein rhan dros **systemau sain** yng Nghymru eu gwneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.

5 WYNEB CYHOEDDUS

Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebu

- 5.1 Bydd yr holl gyhoeddusrwydd, gwybodaeth gyhoeddus, arddangosfeydd, nwyddau hyrwyddo a deunyddiau hysbysebu a ddefnyddir gennym yng Nghymru i dargedu'r cyhoedd yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Os cyhoeddir fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd - a bydd y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd a byddant yr un mor hygyrch.
- 5.2 Bydd y canlynol yn eithriad i'r uchod:
- deunyddiau a ddefnyddir mewn digwyddiadau megis eisteddfodau yng Nghymru lle y gellir defnyddio deunyddiau cyhoeddusrwydd, gwybodaeth gyhoeddus, arddangosfeydd a deunyddiau hysbysebu yn Gymraeg yn unig.
 - deunydd wedi'i anelu at gynulleidfa gyfyngedig ac arbenigol. Byddwn yn ystyried yr angen i gyfieithu'r deunydd hwn ym mhob achos, gan ystyried natur y gynulleidfa a'r pwnc a gaiff ei drafod, a thrwy ddefnyddio'r system sgorio (i'w chytuno â Bwrdd yr Iaith Gymraeg).
- 5.3 Bydd hysbysebion a roddir mewn papurau newydd Saesneg (neu ddeunydd tebyg) a ddsberthir yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, yn ddwyieithog, neu byddant yn ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (gyda'r ddau fersiwn yn ymddangos ar yr un pryd, ac yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd).
- 5.4 Bydd hysbysebion mewn cyhoeddiadau iaith Gymraeg yn Gymraeg yn unig.
- 5.5 Bydd ymgyrchoedd ar y teledu sy'n ymddangos ar S4C yn ystod oriau rhaglennu Cymraeg yn Gymraeg. Bydd ymgyrchoedd radio a ddarlledir yn ystod rhaglennu Cymraeg ar orsafoedd radio masnachol yn Gymraeg.

- 5.6 Bydd llinellau ymateb dros y ffôn a ffyrdd eraill o ymateb i ymgyrchoedd yng Nghymru yn ddwyieithog neu byddant yn cynnwys gwasanaeth ymateb Cymraeg ar wahân.

Cyhoeddiadau

- 5.7 Gan ddilyn y system sgorio - y cyfeirir ati isod - byddwn yn cyhoeddi deunydd sydd ar gael i'r cyhoedd naill ai'n ddwyieithog (y fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen) neu mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.
- 5.8 Os cyhoeddir fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint ac ansawdd, a'n trefn arferol fydd sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd a'i bod yr un mor hawdd cael gafael arnynt. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.
- 5.9 Byddwn yn defnyddio'r system sgorio (i'w chytuno arni â Bwrdd yr Iaith Gymraeg), i nodi'n wrthrychol pryd y dylai deunydd gael ei gyhoeddi fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân neu fel dogfennau dwyieithog.
- 5.10 Lle nad ydynt ar gael am ddim, ni fydd pris dogfen ddwyieithog yn fwy na phris cyhoeddiad mewn un iaith. Bydd pris fersiwn Cymraeg a Saesneg ar wahân yr un fath.
- 5.11 Bydd yr uchod hefyd yn gymwys i ddeunydd sydd ar gael yn electronig ar ein gwefan, ar CD Rom neu fel arall.

Gwefannau

- 5.12 Bydd ein gwefannau'n cynnwys tudalennau yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- 5.13 Wrth ddylunio gwefannau newydd, neu ail-ddatblygu ein gwefannau presennol, byddwn yn ystyried Canllawiau a Safonau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer Meddalwedd Dwyieithog ac unrhyw ganllawiau eraill y mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi'u cyhoeddi ynglŷn â datblygu gwefannau.

- 5.14 Pryd bynnag y byddwn yn cyhoeddi cyhoeddiadau Saesneg ar ein gwefan, bydd y fersiynau Cymraeg yn cael eu rhoi ar yr un pryd, os byddant ar gael.

Ffurflenni a deunydd eglurhaol cysylltiedig

- 5.15 Byddwn yn sicrhau bod yr holl ffurflenni a deunydd eglurhaol cysylltiedig i'w defnyddio gan y cyhoedd yng Nghymru ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan ddilyn y system sgorio - y cyfeirir ati isod. Bydd hyn yn cynnwys ffurflenni rhyngweithiol a gyhoeddir ar ein gwefannau.
- 5.16 Os cyhoeddir fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint ac ansawdd, a byddwn yn sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd a'i bod yr un mor hawdd cael gafael arnynt. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.
- 5.17 Byddwn yn defnyddio'r system sgorio (i'w chytuno â Bwrdd yr Iaith Gymraeg), i nodi'n wrthrychol pryd y dylai ffurflenni a deunydd eglurhaol cysylltiedig gael eu cyhoeddi fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân neu fel dogfennau dwyieithog.
- 5.18 Pan fyddwn yn rhoi gwybodaeth ar fersiynau Cymraeg o ffurflenni a gaiff eu hanfon at y cyhoedd, byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg.
- 5.19 Pan fyddwn yn rhoi gwybodaeth ar ffurflenni dwyieithog a gaiff eu hanfon at y cyhoedd, byddwn yn gwneud hynny'n ddwyieithog oni bai ein bod yn gwybod y byddai'n well gan bobl dderbyn y wybodaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unig.
- 5.20 Pan fydd sefydliadau eraill yn dosbarthu ffurflenni ar ein rhan, byddwn yn sicrhau eu bod yn gwneud hynny yn unol â'r uchod.

Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff

- 5.21 Bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff mewn papurau newydd Saesneg (neu gyfryngau tebyg) a ddosberthir yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru yn ddwyieithog neu'n ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd hysbysiadau yn ymddangos yn Gymraeg mewn cyhoeddiadau Cymraeg.
- 5.22 Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd waeth p'un a fyddant yn cael eu cynhyrchu fel un fersiwn dwyieithog neu fel hysbysiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân.
- 5.23 Gall hysbysiadau recriwtio a roddir mewn cyhoeddiadau Saesneg a ddosberthir ledled y DU ymddangos yn Saesneg, oni bai bod y swydd yn un lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol. Os felly, gall yr hysbysiad fod yn gwbl ddwyieithog, neu yn Gymraeg gydag esboniad byr yn Saesneg.

Datganiadau i'r wasg a chyswllt â'r cyfryngau

- 5.24 Bydd datganiadau i'r wasg a anfonir at y wasg Gymraeg a'r cyfryngau darlledu Cymraeg yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg, lle bydd terfynau amser yn caniatáu hynny.

6 GWEITHREDU'R CYNLLUN

Staffio

- 6.1 Nid oes gennym swyddfeydd yng Nghymru i weithredu o dan y cynllun hwn. Er hynny, byddwn yn gofyn am wybodaeth am sgiliau iaith Gymraeg ymgeiswyr am swyddi a staff presennol.

Recriwtio

- 6.2 Ar gyfer unrhyw swyddi sy'n cynnwys dod i gysylltiad helaeth a rheolaidd â'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn ystyried pa un a ddylai rhuglder yn y Gymraeg fod yn sgil ddymunol neu'n sgil hanfodol - a bydd hyn yn cael ei ddatgan mewn cymwysterau a hysbysebion swyddi.

Hyfforddiant iaith

- 6.3 Byddwn yn cefnogi ac yn ariannu hyfforddiant iaith Gymraeg a hyfforddiant galwedigaethol Cymraeg lle y mae'r sgiliau hyn yn berthnasol i ddeiliad y swydd, yn unol â'n polisi dysgu a datblygu presennol.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)

- 6.4 Byddwn yn ystyried yr angen i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg, ac yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn, wrth i ni ddatblygu, cynllunio a phrynu cynhyrchion a gwasanaethau TGCh.
- 6.5 Wrth i ni ddatblygu neu brynu systemau TGCh byddwn yn ystyried Canllawiau a Safonau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer Meddalwedd Ddwyeithog.

Gwaith partneriaeth

- 6.6 Pan fyddwn yn gweithredu fel yr arweinydd strategol ac ariannol o fewn partneriaeth ffurfiol, byddwn yn sicrhau bod pob agwedd ar wasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â'r cynllun hwn.

- 6.7 Pan fyddwn yn ymuno â phartneriaeth ffurfiol y mae sefydliad arall yn ei harwain, bydd ein cyfraniad i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r cynllun hwn a byddwn yn annog y partneriaid eraill i gydymffurfio.
- 6.8 Pan fyddwn yn bartner mewn consortiwm, byddwn yn annog y consortiwm i gydymffurfio â'r cynllun hwn.
- 6.9 Dim ond i bartneriaethau ffurfiol sy'n ymwneud â gwasanaethau sydd ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru y mae'r uchod yn berthnasol.

Trefniadau mewnol

- 6.10 Rhoddir awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn y Swyddfa Masnachu Teg i'r mesurau yn y cynllun hwn.
- 6.11 Bydd gan reolwyr y cyfrifoldeb o weithredu'r agweddau hynny ar y cynllun sy'n berthnasol i'w gwaith.
- 6.12 Byddwn yn gofyn i uwch aelod o staff gydgysylltu'r gwaith sy'n ofynnol i gyflawni, monitro ac adolygu'r cynllun hwn.
- 6.13 Noder ein prif ddyddiadau targed ar gyfer cyflawni'r cynllun yn Atodiad A. Ein nod yw sicrhau ein bod yn cyflawni'r ymrwymadau a nodir yn y cynllun hwn cyn gynted ag sy'n ymarferol.
- 6.14 Rhoddir cyhoeddusrwydd i'r cynllun ymhlith ein staff a'r cyhoedd yng Nghymru. Caiff ei gyhoeddi mewn man priodol ar ein gwefan.
- 6.15 Caiff canllawiau eu datblygu ar gyfer ein staff er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod sut i weithredu'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn.
- 6.16 Byddwn yn newid canllawiau presennol y staff a gaiff eu heffeithio gan y cynllun hwn er mwyn adlewyrchu'r mesurau a gaiff eu cynnwys yn y cynllun hwn.
- 6.17 Byddwn yn sicrhau mai dim ond cyfieithwyr cymwys a ddefnyddiwn i'n helpu i gyflawni'r cynllun hwn.

- 6.18 Bydd unrhyw fath o gysylltiad â'r cyhoedd yng Nghymru, nad yw'r cynllun hwn yn ymdrin yn benodol ag ef, yn cael ei gynnal mewn ffordd sy'n gyson ag egwyddorion cyffredinol y cynllun hwn.

Y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol

- 6.19 Pan fyddwn yn rhyddhau gwybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, byddwn yn eu cyfieithu i ddewis iaith yr ymgeisydd ar yr amod bod nifer y geiriau y mae angen eu cyfieithu yn llai na 500.

Monitro

- 6.20 Byddwn yn monitro ein cynnydd wrth gyflawni'r cynllun hwn yn erbyn y targedau a nodir yn Atodiad A.
- 6.21 Bydd ein gweithdrefnau monitro a chyflwyno adroddiadau presennol yn cynnwys cyfeiriad at gynnydd o ran cyflawni'r cynllun, fel y bo'n briodol.
- 6.22 Byddwn yn cyflwyno adroddiadau i Fwrdd yr Iaith Gymraeg, ar ein cynnydd o ran cyflawni'r cynllun hwn ar gais.
- 6.23 Ein targed yw sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn o fewn pedair blynedd iddo ddod i rym. Byddwn yn defnyddio gweithdrefn hunanasesu, i'w chytuno â Bwrdd yr Iaith Gymraeg, er mwyn monitro cynnydd yn erbyn y targed hwn.

7 ADOLYGU A DIWYGIO'R CYNLLUN

- 7.1 Byddwn yn adolygu'r cynllun hwn o fewn pedair blynedd iddo ddod i rym.
- 7.2 O bryd i'w gilydd, efallai y bydd angen i ni adolygu'r cynllun hwn, neu gynnig newidiadau i'r cynllun hwn, yn sgîl newidiadau i'n swyddogaethau, neu i'r amgylchiadau y byddwn yn ymgymryd â'r swyddogaethau hynny oddi tanynt, neu am unrhyw reswm arall.
- 7.3 Ni wnawn unrhyw newidiadau i'r cynllun hwn heb gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Cwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwella

- 7.4 Dylid anfon cwynion yn ymwneud â'r cynllun hwn, neu awgrymiadau ar gyfer gwella, at:

Paul McSherry
Office of Fair Trading
Fleetbank House
2-6 Salisbury Square
London EC4Y 8JX

E-bost: paul.mcsherry@oft.gsi.gov.uk

- 7.5 Byddwn yn cydweithredu â Bwrdd yr Iaith Gymraeg er mwyn datrys cwynion, ac yn ystod unrhyw ymchwiliadau a gynhelir o dan Adran 17 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg.

ATODIAD(AU)

A PRIF DDYDDIADAU TARGED AR GYFER CYFLAWNI'R CYNLLUN

Dyddiad cwblhau

Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

Gohebiaeth

(gweler tudalen 7 o'r cynllun hwn)

Pan gyhoeddir y cynllun hwn.

Cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru

(gweler tudalen 8 o'r cynllun hwn)

Pan gyhoeddir y cynllun hwn.

Ymwneud arall â'r cyhoedd yng Nghymru

(gweler tudalen 9 o'r cynllun hwn)

Pan gyhoeddir y cynllun hwn.

Wyneb cyhoeddus

Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebu

(gweler tudalen 10 o'r cynllun hwn)

Pan gyhoeddir y cynllun hwn.

Cyhoeddiadau

(gweler tudalen 11 o'r cynllun hwn)

Pan gyhoeddir y cynllun hwn.

Gwefannau

(gweler tudalennau 11 a 12 o'r cynllun hwn)

O fewn 12 mis i gyhoeddi'r cynllun hwn.

Ffurflenni a deunydd eglurhaol cysylltiedig

(gweler tudalen 12 o'r cynllun hwn)

Pan gyhoeddir y cynllun hwn.

Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff

(gweler tudalennau 12 a 13 o'r cynllun hwn)

Pan gyhoeddir y cynllun hwn.

Datganiadau i'r wasg a chyswllt â'r cyfryngau
(gweler tudalennau 13 o'r cynllun hwn)

Pan gyhoeddir y
cynllun hwn.

Gweithredu'r cynllun

Staffio a recriwtio
(gweler tudalennau 14 o'r cynllun hwn)

Pan gyhoeddir y
cynllun hwn.

Hyfforddiant iaith
(gweler tudalen 14 o'r cynllun hwn)

Pan gyhoeddir y
cynllun hwn.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)
(gweler tudalen 14 o'r cynllun hwn)

Pan gyhoeddir y
cynllun hwn.

Gwaith partneriaeth
(gweler tudalen 14 o'r cynllun hwn)

Pan gyhoeddir y
cynllun hwn.

Trefniadau mewnol
(gweler tudalennau 15 ac 16 o'r cynllun hwn)

Pan gyhoeddir y
cynllun hwn.

**Y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau
Amgylcheddol**
(gweler tudalen 16 o'r cynllun hwn)

Pan gyhoeddir y
cynllun hwn.

Monitro

Pan gyhoeddir y
cynllun hwn.